Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru Gyfartal

## Beth ddylen ni ei wneud fel bod Cymru yn wlad mwy teg i fyw a gweithio ynddi?

## 2020 – 2024



## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl erbyn 19 Tachwedd 2019

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen ymgynghori: **'Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020 – 2024'**

**Medi 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn ysgrifen **glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os oes unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl yn y Geiriau anodd ar dudalen 19.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I ddweud beth rydych chi'n feddwl, darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac yn llanwch y **Ffurflen Ymateb Cymru Gyfartal**. Anfonwch yn ôl at:

**Cyfeiriad:** Tîm Cydraddoldeb
Adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

**E-bost:**

AmcanionCynllunCydraddoldebStrategol2020@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma......2**

**Beth mae'r Gweinidog Jane Hutt yn ei ddweud?......4**

**Beth ydy'r ymgynghoriad yma?......9**

**Beth sydd wedi digwydd ers 2016?......11**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni......13**

**Beth rydyn ni wedi ei ddysgu......15**

**Ein Hamcanion Cydraddoldeb......17**

**Geiriau anodd......19**

# Beth mae'r Gweinidog Jane Hutt yn ei ddweud



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae bywyd yn deg i bawb. Lle:



- mae gan bawb gyfle i gymryd rhan



- mae pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau yn hawdd



- mae pawb yn teimlo'n ddiogel



- does neb yn dioddef **gwahaniaethu**.

> **Gwahaniaethu** ydy pan mae rhywun yn eich trin yn wael neu yn annheg oherwydd eu bod nhw'n meddwl eich bod yn wahanol.



Dydy’r nodau yma ddim yn newydd. Ond maen nhw’n fwy pwysig nag erioed.



Mae pobl nawr yn cael eu trin yn annheg oherwydd toriadau i wasanaethau a budd-daliadau.



Ac mae yna fwy o broblemau wedi bod gyda gwahaniaethu.



Rydyn ni angen cefnogi pobl sydd yn fwyaf tebygol o gael eu trin yn annheg. Mae’r rhain yn cynnwys:



- Pobl anabl.



- Pobl sy’n dod o wledydd eraill neu o ddiwylliannau eraill – sy’n byw mewn ffordd wahanol neu sydd â lliw croen gwahanol.



- Pobl sydd wedi dod i'r DU o wledydd eraill i ddianc rhag rhyfel neu dlodi.



- Pobl yn y gymuned **LGBT**.


Mae **LGBT** yn meddwl lesbiaid, dynion hoyw, pobl deurywiol a phobl trawsrywiol.



**Lesbiaid** ydy menywod sy'n cael eu denu gan ferched eraill.



**Dynion hoyw** ydy dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill



**Pobl deurywiol** ydy pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod




**Pobl trawsrywiol** ydy pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai'n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.



- Dynion a menywod.



- Pobl o wahanol oed – pobl ifainc a phobl hŷn.



- Pobl o wahanol grefyddau – neu bobl sydd heb grefydd.



- Menywod sy’n disgwyl babi neu sy’n bwydo o’r fron.



- Pobl sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil.



Weithiau mae pobl mewn mwy nag un o’r grwpiau yma. Er enghraifft rydych chi’n gallu bod yn hoyw **ac** yn anabl.



Mae angen inni roi cefnogaeth ychwanegol i’r bobl yma. Oherwydd efallai eu bod nhw’n dioddef mwy o wahaniaethu.




Mae ein **Amcanion Cydraddoldeb** yn bethau rydyn ni’n bwriadu eu gwneud er mwyn gwneud pethau yn fwy teg.





Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein syniadau yn gywir. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl drwy ddarllen y ddogfen yma os gwelwch yn dda. Ac yna llenwi’r ffurflen ymateb.



**Jane Hutt AC**

# Beth ydy'r ymgynghoriad yma?



Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn ddeddf i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.




Mae'r ddeddf yn dweud bod rhaid inni edrych ar ein cynlluniau i wneud Cymru yn fwy teg bob 4 blynedd.



A gwrando ar beth mae'r bobl sydd yn fwyaf tebygol o gael eu trin yn annheg yn ei ddweud.



Y flwyddyn yma fe wnaethon ni siarad gyda grwpiau sydd yn cynrychioli'r bobl yma.



Fe wnaethon nhw ddweud am y **rhwystrau** mae pobl yn eu wynebu oherwydd pwy ydyn nhw.




**Rhwystrau** ydy pethau sydd yn eich stopio rhag gwneud rhywbeth. Er enghraifft, dim digon o arian. Neu byw yn rhywle gyda thrafnidiaeth gwael.



Fe wnaethon ni wirio hefyd i weld pa mor deg ydy Cymru.



Fe wnaethon ni ddefnyddio gwybodaeth gan lawer o wahanol gyrff i wneud hyn.




Fe wnaethon ni ddefnyddio popeth roedden ni wedi ei ddysgu i ddiweddaru ein **Hamcanion Cydraddoldeb**.



Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau i wneud Cymru yn wlad mwy teg i fyw a gweithio ynddi.

# Beth sydd wedi digwydd ers 2016?




Fe wnaethon ni ysgrifennu ein **Hamcanion Cydraddoldeb** yn 2016. Ers hynny mae llawer o bethau wedi digwydd:



- Mae'r DU wedi bod yn cynllunio i adael yr **Undeb Ewropeaidd**.

> Grŵp o wledydd ydy'r **Undeb Ewropeaidd** lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.



- Mae rhagor o bobl wedi dod yn dlawd iawn oherwydd toriadau i wasanaethau a budd-daliadau.




- Mae'r toriadau yma wedi gwneud pethau yn anodd iawn hefyd i bobl anabl. Fe wnaethon ni ysgrifennu cynllun o'r enw **Gweithredu ar Anabledd – Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol**. Cefnogi pobl anabl i fyw y bywyd maen nhw eisiau.



- Mae yna ragor o **droseddau casineb**.

> **Troseddau casineb** ydy pan mae pobl yn cael eu niweidio neu eu bwlio gan rhywun arall oherwydd eu bod nhw'n meddwl eu bod yn wahanol.



- Fe wnaeth yr **Adolygiad Cydraddoldeb Rhyw** ddweud beth maen nhw'n feddwl sydd angen digwydd i wneud pethau'n deg i ddynion, menywod a phobl **anneuaidd**.



> **Pobl anneuaidd** ydy pobl sydd ddim yn gweld eu hunain fel dyn na menyw.



- Rydyn ni wedi helpu pobl sydd wedi dod yma i ddianc rhag rhyfel.



- Rydyn ni wedi dal ymlaen i helpu pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.



- Rydyn ni wedi gweithio gyda phobl hŷn i weld sut rydyn ni'n gallu eu cefnogi nhw i fyw yn dda.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n meddwl rydyn ni'n gallu ei wneud i wella ein **Hamcanion Cydraddoldeb**.

Fe wnaeth pobl ddweud:



- Pan rydyn ni'n cynllunio gwasanaethau mae angen inni wneud yn siŵr eu bod nhw'n **hygyrch**. Fel gofal iechyd a thrafnidiaeth.



> Os ydy rhywbeth yn **hygyrch** mae'n meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio yn hawdd.



- Mae angen inni helpu pobl sydd yn dlawd iawn.




- Mae angen inni siarad am hawliau dynol. Oherwydd mae'n hawl dynol i gael eich trin yn deg.



- Mae angen pob gwahanol fathau o bobl mewn gwleidyddiaeth. Fe ddylai Llywodraeth Cymru gyflogi gwahanol fathau o bobl.



- Mae angen inni wneud yn siŵr bod deddfau hawliau dynol Cymru yn cael eu diogelu os ydy'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu



Fe wnaethon ni edrych ar wybodaeth gan lawer o wahanol gyrff. Fe wnaethon ni ddysgu bod:



- Menywod yn cael eu trin yn annheg mewn llawer o feysydd.



- Mae toriadau i wasanaethau a budd-daliadau wedi gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl anabl.



- Mae yna ragor o droseddau casineb mewn cymunedau, ysgolion a lleoedd gwaith.



- Fe fydd yna fwy o bobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol. Mae angen inni wneud yn siŵr bod gan bobl hŷn ddigon o arian i fyw'n dda.



- Dydy plant a phobl ifanc o deuluoedd tlawd ddim yn cael eu hawliau dynol. Fel bwyd a lle diogel i fyw. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw weithiau yn colli ysgol. A dydyn nhw ddim yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall.



- Roedd nifer o famau yn dweud bod eu cyflogwyr yn eu trin nhw'n ddrwg pan roedden nhw'n feichiog. Doedden nhw ddim yn cael gweithio gwahanol oriau i fynd i apwyntiadau. Roedd rhai mamau yn teimlo bod rhaid iddyn nhw adael eu swyddi.





- Mae gennym ni ddeddfau da i amddiffyn hawliau pobl sydd yn credu yn wahanol grefyddau. Ond mae angen inni wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod eu hawliau. A bod cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yn gwybod beth sydd yn rhaid iddyn nhw ei wneud.




# Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Dyma'r pethau rydyn ni eisiau eu gwneud erbyn 2024.



1. Fe fyddwn ni'n gwneud pethau yn fwy teg i bobl sydd yn dlawd. A gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw fwy o gyfleoedd mewn bywyd.




2. Fe fyddwn ni'n edrych ar ffyrdd o wneud yn siŵr bod hawliau dynol pawb yn cael eu hamddiffyn.



3. Fe fyddwn ni'n meddwl am sut i wneud pethau'n fwy teg ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. A chael **cyrff cyhoeddus** eraill i wneud yr un fath.



**Cyrff cyhoeddus** ydy cyrff sydd yn rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maen nhw'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg. Ond dydyn nhw ddim yn rhan o Lywodraeth Cymru.



4. Fe fyddwn ni'n meddwl am yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhyw pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau. Fe fydd hyn yn gwneud pethau'n deg i ddynion, menywod a phobl anneuaidd.



5. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi pobl sydd yn dioddef trosedd casineb.




6. Fe fyddwn ni'n edrych sut i fesur os ydy gwahanol grwpiau yn yr un gymuned yn dod ymlaen yn dda.



7. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yna wahanol fathau o bobl mewn gwleidyddiaeth yn gwneud penderfyniadau.



8. Fe fyddwn ni'n symud rhwystrau fel bod yr holl wahanol bobl yn gallu gweithio i Lywodraeth Cymru. Fe fyddwn ni'n cefnogi staff o wahanol gefndiroedd fel bod pawb yn gallu cyrraedd eu nodau.




Fe fydd rhagor o wybodaeth am beth fyddwn ni'n wneud i gyflawni ein **Hamcanion Cydraddoldeb** yn y cynllun gorffenedig.

# Geiriau anodd

## Anneuaidd

Pobl anneuaidd ydy pobl sydd ddim yn gweld eu hunain fel dyn na menyw.

## Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus ydy cyrff sydd yn rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maen nhw'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg. Ond dydyn nhw ddim yn rhan o Lywodraeth Cymru.

## Dynion hoyw

Dynion hoyw ydy dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan mae rhywun yn eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eu bod nhw'n meddwl eich bod yn wahanol.

## Hygyrch

Os ydy rhywbeth yn hygyrch mae'n meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio'n hawdd.

## Lesbiaid

Lesbiaid ydy menywod sy'n cael eu denu gan ferched eraill.

## LGBT

Mae LGBT yn meddwl lesbiaid, dynion hoyw, pobl deurywiol a phobl trawsrywiol.

### Pobl ddeurywiol

Pobl deurywiol ydy pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod

### Pobl trawsrywiol

Pobl trawsrywiol ydy pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai'n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.

### Rhwystrau

Rhwystrau ydy pethau sydd yn ei gwneud yn anodd i bobl gymryd rhan.

### Troseddau casineb

Troseddau casineb ydy pan mae pobl yn niweidio neu yn bwlio rhywun arall oherwydd eu bod nhw'n meddwl eu bod yn wahanol.

### Undeb Ewropeaidd

Grŵp o wledydd ydy'r Undeb Ewropeaidd lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.